**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**3/9/2024**

**Presennol:** **Y Cynghorwyr** Huw P Roberts (Cadeirydd), Alwyn M Roberts, (Is-gadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, , Euros Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3063** **Sylwadau'r Cadeirydd:** Cyfeiriodd Huw Pierce Roberts at lythyr ymddiswyddiad y Clerc a diolchodd iddi am ei gwaith ar hyd y blynyddoedd. Cyfeiriodd gyda balchder at lwyddiannau lleol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd, yn arbennig at Eryrod Meirion, Elis Garmon, Arfon Griffiths a Lleucu Hughes. Diolchodd i'r holl wirfoddolwyr a wnaeth sicrhau llwyddiant Gŵyl Llan a Sioe Llanuwchllyn. Rhoddodd adroddiad o gyfarfod Un Llais Cymru Meirionnydd yn Gorffennaf a chyfeiriodd yn arbennig at y cyflwyniad i Gynllun Parc Cenedlaethol Eryri a grantiau y gellir ceisio amdanynt gan y Parc. Dywedodd fod y Parc bob amser yn ddiolchgar o gael pobl i wirfoddoli.

**3064** **Ymddiheuriadau:** Alwyn E Jones, Huw Antur, Llinos Edwards, Heledd Jones, Rhodri Jones

**3065** **Datganiadau o fuddiant:** Dim

**3066** **Cywirdeb Cofnodion cyfarfod 16/7/24:** Cadarnhawyd.

**3067** **Materion y Clerc :**

a) 3067(a) Gwasanaeth bws T3 ac ymateb Gethin George: Trefnwyd cyfarfod am 2.00pm ar ddydd Mercher 18/9/24 (Alwyn E Jones, y Cynghorydd Alan Jones Evans a'r Cadeirydd)
b) 3069.2 Cytunodd y Parch. Carwyn Siddall i gyhoeddi mewn angladd yr angen i fod yn ofalus wrth symud o'r llwybr yn y fynwent newydd gan y gall y tir fod yn anwastad.
c) 3076iv Hyfforddiant ar yr offer dechnolegol: ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth Bwyllgor y Neuadd hyd yn hyn.
d) Er gwybodaeth: Mae Elusen Maurice Vaughan, yn dilyn cyngor gan yr Almshouses Association, wedi penodi Ymddiriedolwr ychwanegol, sef Huw Antur.
**e)** Swydd y Clerc: Cyhoeddodd y SAC ei bod hithau'n dymuno rhoi'r gorau i'w gwaith ond ei bod yn fodlon parhau tra bo angen. Mynegwyd gwerthfawrogiad o waith manwl Bethan Edwards ar hyd y blynyddoedd. Ffurfiwyd Is-bwyllgor Staffio (Y Cadeirydd, Huw Antur ac Alwyn E Jones) i wneud y trefniadau ar gyfer apwyntio Clerc newydd.

**3068** **Cyngor Gwynedd** Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd. Dywedodd fod y polion wrth Ceniarth wedi eu symud er mwyn gwella mynediad i gae'r sioe, a diolchodd i'r gweithwyr am gyflawni hyn.

Disgwylir yr arwyddion Clirffordd ar ffordd Llangywer cyn hir. Mae'r Cynghorydd Alan Jones Evans yn parhau i geisio cael dealltwriaeth ar gyfrifoldeb pa Awdurdod fydd grymuso'r pwerau a monitro'r sefyllfa ar y ffordd.

Mae'r gwrych wrth y Glofer wedi ei thorri, gan ennill yn ôl llathen o'r ffordd.

Addawodd dynnu sylw'r adran berthnasol i'r gwaredu-slei-bach a fu yn ardal Peniel yr wythnos hon.

**3069 Is-bwyllgorau**

1. Pwyllgor Datblygu - heb gyfarfod ers Gorffennaf.
2. Mynwentydd: Bydd Sion Jones yn neilltuo 2 ddiwrnod i bridd-lenwi mannau anwastad yn y fynwent. Cymeradwyodd y Cyngor y pris a oedd wedi eu negodi gan yr Is-bwyllgor. Mae 2 fin sbwriel yn y fynwent: cytunwyd i symud yr un wrth y porth at y maes parcio ar gyfer ei wagio pan fydd yn llawn.
3. Bioamrywiaeth: derbyniwyd gwybodaeth y bydd y ddwy goeden wrth faes parcio'r fynwent yn cael eu cwympo yr wythnos hon.
4. Nadolig - heb gyfarfod ers Gorffennaf.
5. Asedau - heb gyfarfod ers Gorffennaf.
6. Cyllid – diolchwyd i Alwyn M Roberts am sicrhau cyflenwad trydan ar y raddfa rhataf i'r toiledau.

**3070 Materion Ariannol** Derbyniwyd manylion llawn gan y SAC. Nodwyd ar gyfer y Cofnodion fod y Cyngor wedi derbyn £8,000, sef ail hanner y Praesept. Cymeradwywyd derbyniadau a thaliadau'r mis:

| | |
|---|---|
| **Talwyd:** | |
| Cyflog Gorff ac Awst | |
| CThEF Gorff ac Awst | 300.00 |
| HG Web Designs – Gwefan | 250.00 |
| Awdit Mewnol, Awdit 20-21, 21-22 | 751.00 |
| Nwyddau glanhau CCF x 2 | 124.03 |
| Costau banc x 2 | 11.85 |
| Costau (Gaiman) a'r Cyfnod | 153.00 |
| | |
| **Wedi derbyn:** | |
| Praesept | 8000.00 |
| TAW 22-23 | 219.51 |
| Grant at ymweliad Gaiman | 300.00 |
| Cyfraniad Toiledau | 2.00 |
| Ad-daliad Glanllyn (Gaiman) | 450.00 |

Diolchwyd eto i Gronfa Llesiant Parc Cenedlaethol Eryri am y grant tuag at ymweliad y bobl ifanc o'r Gaiman.

**3071 Menter Gymunedol Llanuwchllyn** - heb gyfarfod ers Gorffennaf.

**3072 Cwmni Pum Plwy Penllyn** - heb gyfarfod ers Gorffennaf.

**3073 Cynllunio:** Cymeradwywyd cais NP5/71/LB95A Adeilad Rhestredig am estyniad a newidiadau -Pant-y-Ceubren, Llanuwchllyn. LL23 7DD

**3074 Gohebiaeth:** Nodwyd derbyn

i. **Cyngor Gwynedd** Arwyddion "Croeso" uniaith Gymraeg
ii. **Cyngor Gwynedd** Ymgynghoriad System Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy Cyngor Gwynedd. Cytunwyd mai dull ethol ymgeisydd lleol trwy fwyafrif syml yw'r dull pleidleisio y mae'r Cyngor hwn yn ei ffafrio ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd.
iii. **Un Llais Cymru** Cyfarfod Cymuned Digidol 10/9/24 am 2.00pm (rhithiol)
iv. **Un Llais Cymru** Rhestr o Bwerau Cynghorau ac o'r Polisïau a ddylai fod gan y Cyngor.
v. **Un Llais Cymru** Y rheolau Presenoldeb Cynghorwyr mewn cyfarfodydd.
vi. **Un Llais Cymru** Gwybodaeth am y Gynhadledd Genedlaethol yn Llanelwedd 16/10/24
vii. **Un Llais Cymru** Cyflwyniad a roddwyd i gyfarfod Pwyllgor Meirionnydd ym mis Gorffennaf
viii. **Clwb Hoci'r Bala:** Derbyniwyd cais am nawdd ariannol ar gyfer creu maes pob-tywydd newydd. Cytunwyd i ystyried y cais ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyda'r ceisiadau eraill.

**3075 Materion lleol y Cynghorwyr:** Nid yw'r gangen ar y groesffordd wedi ei thorri.

**3076 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 1/10/2024 yn y Neuadd Bentref.

*Arrangements will be made for filling the post of Clerk and Responsible Finance Officer as the incumbents have expressed their desire to retire. Clearway signage will shortly be erected by Gwynedd County Council on the road between Llanuwchllyn and the Sailing Club, Bala. A clearway is a road or section of road where it is illegal to stop on the main carriageway for any reason except in an emergency.*